

## Croesawu oedfa'r Eisteddfod yn ôl i'r pafiliwn

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, aeth yn arferiad cynnal oedfa'r Eisteddfod mewn capel lleol. Fodd bynnag, eleni daeth y cyfle i weithio gyda Phwyllgor Gwaith yr Eisteddfod i drefnu oedfa yn y prif bafiliwn ar y Maes. Gan fod yna gryn gystadlu hefyd, bu'n rhaid cynnal yr oedfa'n blygeiniol am 9 o'r gloch y bore, ond braf oedd gweld llond llwyfan a chynulleidfa deilwng wedi crynhoi yn y pafiliwn.

Fe'n croesawyd gan Elin Jones AS, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, a chanwyd emynau ac iddynt naws lleol o waith y diweddar Barchedigion W. J. Gruffydd a Dafydd Edwards. Offrymwyd gweddi hefyd o waith y Parch. D. Ben Rees. Gyda llwyfan lliwgar a phlant a phobl ifanc yn cynrychioli Ysgol Sul Capel Bwlch-gwynt, Tregaron, a chôr unedig Adrannau Aberystwyth a Llanbed, ag unawd gan Nanw Griffiths Jones, cafwyd gwledd o lefaru a chanu. Roedd Côr yr Eisteddfod hefyd ar y llwyfan

yn arwain y canu, a diolch am fawl gafaelgar a swynol. Bu nifer o unigolion yn cymryd rhan drwy gyflwyno unawdau a darlenniadau, gan ein tywys ar daith hanesyddol yn olrhain treftadaeth Gristnogol y fro.

Dilynwyd thema'r Eisteddfod eleni ar gyfer yr oedfa, sef 'Dadeni', a cafwyd anerchiad effeithiol a chlir gan y Parch. Densil Morgan, gyda'r Parch. Carwyn Arthur yn cloi gyda gweddi. Diolch i Densil am ei neges, a braf yw cael rhannu'r neges honno â darllenwyr *Cenn@d*. Gwnaed casgliad at waith Cymorth Cristnogol yn Wcráin. Diolchwn i bobl Ceredigion am oedfa fendithiol ac ystyrlon.

*Aled Davies*

*Trefnydd digwyddiadau Cytûn*



Nifer o'r rhai fu'n cymryd rhan yn yr oedfa yn y pafiliwn

# Oedfa Eisteddfod Genedlaethol yr Eisteddfod – neges y Parch. Athro Densil Morgan

Rwyf yma y bore 'ma o dan awdurdod! Er mai fi yw gweinidog Rhiannon Lewis, hi, ynghyd â Janet Evans, a fu'n gyfrifol am drefnu'r oedfa hon, a hi a roddodd y gorchymyn, 'Mae'n rhaid cael neges, mae'n rhaid cael her'. Ac os ydych yn gyfarwydd â Rhiannon fel arweinydd côr byddwch yn gwybod, os bydd Rhiannon yn dweud, mae'n rhaid i chithau ufuddhau! Felly, rhag bod yn anufudd, dyma finnau'n ceisio ymateb i'w chais. 'Rhowch i ni her, heriwch ni', meddai.

Yn unol â thema'r oedfa – dadeni, atgyfodi, y greadigaeth newydd yng Nghrist – fedra i ddim llai na mynd â chi am ennyd at yr hanes am Nicodemus yn y drydedd bennod yn Efengyl Ioan:

Un noson ar ôl iddi dywyllu daeth un o'r arweinwyr Iddewig at Iesu. Pharisead o'r enw Nicodemus oedd y dyn. Meddai wrth Iesu, 'Rabbi, dŷn ni'n gwybod dy fod di'n athro wedi'i anfon gan Dduw i'n dysgu ni. Mae'r gwyrthiau rwyf ti'n eu gwneud yn profi fod Duw gyda thi'. Dyma Iesu'n ymateb drwy ddweud hyn: 'Cred di fi – ni all neb weld Duw'n teyrnasu heb fod wedi cael ei eni (neu ei geni) o'r newydd'. (3:1-3)

Cynrychioli'r hen yr oedd Nicodemus, fel finnau ar un wedd, yn ŵr parchus, digon sylweddol yn ei ffordd ei hun, cwbl gymeradwy, ond efallai'n orgysurus gyda'r hen gyfundrefn, yr hen arferion, yr hen grefydd. Ac roedd newydd-deb Iesu os nad yn ei anesmwytho, yn sicr yn peri penbleth iddo: 'Sut gall unrhyw un gael ei eni o'r newydd ac yntau eisoes yn oedolyn?' (3:4) Am beth yn y byd mae'r proffwyd hwn, y rabi ifanc magnetig ei bersonoliaeth, yn siarad? 'Allan nhw'n sicr ddim mynd i mewn i'r groth yr ail waith i gael eu geni felly!' (3:5). Dyw'r peth ddim yn gwneud sens!

Ac ar un wedd mae hynny'n wir am y ffydd Gristnogol bob amser; yn ôl unrhyw resymeg feidrol, dyw hi ddim yn gwneud sens. Dadeni, genedigaeth newydd, atgyfodiad oddi wrth y meirw, nef newydd a daear newydd lle mae cyfiawnder yn cartrefu, sut gallai hynny fod? Heb sôn am y Duw mawr tragwyddol yn ymgnawdoli mewn baban bach ym Methlehem Jwdea ac yn marw yn ysgymun ar groesbren y tu hwnt i fur y ddinas: mae hynny'n groes i bob rheswm; yn ôl unrhyw gyfrif dynol, dyw hi ddim yn gwneud sens!

Ac eto i gyd, yn ôl llawer iawn o bobl, mae hi wedi **dod** i wneud sens. Ar ôl cenhadu ar hyd y de-orllewin ym more bach ein hanes ni, a'r iaith Gymraeg newydd ymdarddu o'r hen Frythoneg, argyhoeddwyd y genedl ifanc fod hon yn gwneud sens! 'Byddwch lawen', medd Dewi, 'cadwch y ffydd, a gwnewch y pethau bychain'. Pa mor annhebygol ar yr olwg gyntaf, wedi i'r Ysbryd afael yn y genhedlaeth honno a'u geni o'r newydd, daeth y neges hon i wneud sens, a dod yn sylfaen ar gyfer bywyd cenedl gyfan. Pan ddaeth y mynachod i Ystrad-fflur chwe chanrif yn ddiweddarach, a chreu cymuned o ddisgyblion a oedd yn ymroi i'r bywyd defosiynol a naws gweddi yn perarogli trwy'r wlad, sylweddolwyd o'r newydd fod y neges hon yn gwneud sens. Fel hyn y disgrifiodd Madog ap Gwallter, y brawd Ffransiscaidd, holl baradocs y ffydd:

Cawr mawr bychan,  
cryf cadarn gwan ...  
cyfoethog tlawd,  
a'n Tad a'n Brawd, awdur brodiau ...  
isel uchel,  
Emmanuel, mêl feddyliau.

Ie, mae'r neges hon yn gwneud sens.

'Yr offeiriad crac' roeddent yn galw Daniel Rowland, curad Llangeitho, yn y ddeunawfed ganrif. Ar un adeg roedd yntau, fel Nicodemus, heb ddeall busnes yr ailenedigaeth yma o gwbl, ond wedi gwranddo ar Gruffydd Jones, Llanddowror, yn pwyso ar gynulleidfa eglwys Llanddewibrefi, 'Rhaid eich geni chwi drachefn', dyna Daniel yntau'n cael ei argyhoeddi a'r hen wyrth oesol yn digwydd:

O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi,  
Daeth Iesu i'm calon i fyw.

Ac o fod yn 'offeiriad crac', daeth yn gyfryngwr gras a'r nodyn efengylaidd yn seinio'n beraidd ar hyd y wlad. Ie, mae'r neges hon yn gwneud sens!

Clywsom yn y darlleniad Elliw yn dweud: 'Felly, os oes neb yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, wele, y mae'r newydd yma', a dyna sy'n ein clymu ni wrth hanes Nicodemus. Fel hyn mae'r stori yn mynd yn ei blaen:

Atebodd Iesu, 'Cred di fi, all neb brofi Duw'n teyrnasu heb fod wedi cael ei eni drwy ddŵr a thrwy'r Ysbryd. Mae'r corff dynol yn rhoi genedigaeth i berson dynol, ond yr Ysbryd sy'n rhoi genedigaeth ysbrydol ... Mae'r gwynt yn chwythu i bob cyfeiriad. Rwyf ti'n clywed ei sŵn, ond dwyt ti ddim yn gallu dweud o ble mae'n dod nac i ble mae'n mynd. Felly mae hi hefyd gyda phawb sydd wedi'u geni drwy'r Ysbryd'. 'Sut mae hynny'n gallu digwydd?' gofynnodd Nicodemus. 'Dyma ti,' meddai Iesu, 'yr athro parchus yng ngolwg pobl Israel, a tithau ddim yn deall!' (3:5-11).

Ydyn ni'n deall?

Un person a ddeallodd her stori Nicodemus oedd Kitchener Davies, y bardd a faged yn y Llain, Llwynpiod, o fewn golwg i faes y Brifwyl hon. Un o gerddi mwyaf ysgytwol y ganrif o'r blaen oedd y bryddest 'Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu':

Y Meddyg Gwell,  
Sy'n naddu â'th sgapel rhwng yr asgwrn a'r mêr,  
Atal Dy law rhag y driniaeth a'm naddai  
Yn rhydd oddi wrth fy nghymheiriaid a'm cymdogaeth ...  
... Rwy'n rhy hen a rhy fuscgrell a rhy ddedwydd fy myd,  
Rhy esmwyth, rhy hunan-ddigonol  
I'm hysgwyd i'r anwybod yn nannedd dy gorwynt ...  
... O Geidwad y colledig,  
Achub fi ... rhag Dy fedydd sy'n golchi mor lân yr Hen Ddyn:  
Cadw fi ... rhag merthyrdod anorfod Dy etholedig Di ...  
Achub a chadw fi rhag y gwynt sy'n chwythu lle y mynno.

Ie, rŷm yn gweld yr her, ond ble mae'r cysur? Oni ddylai'r efengyl ddod â chysur yn ei sgil? Ydych chi'n cofio sut mae stori Nicodemus yn gorffen? (Ac rwy'n troi i gloi oddi wrth Beibl.net at y Beibl Cymraeg Newydd):

Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol. Oherwydd nid i gondemnio'r byd yr anfonodd Duw ei Fab i'r byd, ond er mwyn i'r byd gael ei achub trwyddo ef. (3:14-17)

Cawsom yr her, do, ond dyma'r cysur. Gadewch i ninnau ymddiried yn y neges hon. AMEN.

## Mae eich gwlad eich angen CHI

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn bwrw trem ar drefniadau'r Sioe Fawr yn Llanelwedd, gan adrodd ar y dystiolaeth Gristnogol yno

Tybed wnaethoch chi fentro i faes y Sioe eleni ynghanol y tywydd poeth, fel y gwnaeth tua 50,000 o bobl bob dydd? Wrth gyrraedd y Sioe eleni, a dod i mewn drwy'r brif fynedfa ger y tyrau mawr, a cherdded ar hyd y prif lwybr ar ffordd D, un o'r stondinau mawr cyntaf yno oedd stondin y Fyddin. Roedd yn stondin drawiadol iawn, gyda thanciau a phob math o ynnau ac arfau tu allan, â phlant i'w gweld yn dringo ac yn chwarae arnynt o fore gwyn tan nos. Roedd yna fand pres yn perfformio bob awr, a llu o anerchiadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd o ynnau ac arfau.

Roedd anrhegion lu i'r plant, a chylchgronau'n cael eu gwthio ar bobl wrth iddynt gerdded heibio.

Y drws nesaf yr oedd stondin yr Awyrlu Brenhinol, ag awyren yn llawn arfau a bomiau yno'n fygythiol gysgod dros bawb oedd yn pasio. Ar draws y ffordd yr oedd stondin y Llynges Filwrol Frenhinol, hwythau hefyd efo stondin sylweddol a physrus.

Mae'r cysylltiad rhwng y Sioe a'r fyddin yn hanesyddol wedi bod yn un glòs, â nifer o sioeau ceffylau'n diddori'r dorf sawl gwaith y dydd, a thanio'r gynnu'n digwydd yn rheolaidd, heb anghofio am hedfaniadau dyddiol y Spitfires uwch maes y Sioe. Mae'n debyg fod dros 250 o wirfoddolwyr milwrol yno, gan gynnwys plant a phobl ifanc y cadetiaid. Roedd y stondinau hyn yn rhai byrlymus a hwyliog iawn, a thorfeydd o deuluoedd yn ymgasglu



Adleisiau o alwad dychrynlyd y Rhyfel Byd Cyntaf i'w gweld ar faes y Sioe eleni

â'r babel i wneud gwaith crefft a gweithgareddau yn ystod yr wythnos. Diolch i'r Parch. Tim a Helen Williams am eu gwaith diflino o fewn y babel gydol yr wythnos. Bu cyfle am sawl sgwrs ddwys ac adeiladol, gan drafod heriau'r byd amaeth a heriau'r ffydd yng Nghymru heddiw.

Bob dydd am 11 o'r gloch cynhaliwyd oedfa fer, a braf fu cael croesawu'r Parch. Evan Morgan, Llywydd EBC, a'r Parch Beti Wyn James, Llywydd UAC, i arwain yr oedfaon hyn yn eu tro. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi bob dydd yn ogystal, a hynny am 8.30 y bore, cyn anfon tîm bychan o wirfoddolwyr allan i'r maes i dreulio'r diwrnod yn eu siacedi oren llachar, â'r geiriau 'Caplaniaid y Sioe' ar eu cefnau. Eu gwaith nhw yn syml oedd bod yn bresenoldeb gweledol ar faes y Sioe, gan fod yn agored i gynnal sgwrsiau yn ôl y galw. Yn eu plith yr oedd y Parch. Brian Reardon, gweinidog ffyddlon EBC yn Llanelwedd a'r cyffiniau.



Bwrlwm Pabell Cytûn ar faes y Sioe

Tybed pwy sylwodd arnynt? Tybed faint drodd i mewn i'r pebyll Cristnogol? Wel, nifer cymharol fach, dybiwn i, o'i gymharu â'r torfeydd oedd o gwmpas y stondinau milwrol. Mae llawer wedi cwestiynu a oes yna werth i ni fel enwadau fod yn y Sioe o gwbl! Gresyn na fu mwy o ddiddordeb o blith yr eglwys Cymraeg i wirfoddoli. O'r tîm o 12 caplan ar ddyletswydd eleni, dim ond un oedd yn siarad Cymraeg. Mynegwyd pryder hefyd am y diffyg caplaniaid benywaidd. Diolch am gefnogaeth yr Eglwys yng Nghymru; heb eu cefnogaeth nhw, ni fyddai wedi bod yn bosib cynnal y ddarpariaeth hon.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

## Mae eich gwlad eich angen CHI

(parhad o dudalen 1)

Felly, cri am help a geir yma. Cri debyg i'r alwad honno adeg y Rhyfel Byd Cyntaf – mae angen gwirfoddolwyr. Mae angen caplaniaid, ac mae angen hyfforddi'r caplaniaid hynny rŵan ar gyfer digwyddiadau 2023. Mae eich gwlad eich angen CHI! – Gristnogion Cymru – i fod yn halen ac yn oleuni, i fod yn llais sy'n cyhoeddi ffordd a llwybr gwahanol i'r hyn a glywir o gyfeiriad y sector milwrol. Ai arwydd o'r amserau yw fod 250 o bobl yn barod i gyhoeddi neges militariaeth tra bu'n gryn ymdrech i ddod o hyd i ddwsin o bobl oedd yn barod i gyhoeddi ffordd tangnefedd a gobaith, a chyhoeddi newyddion da efengyl Iesu Grist?

Dros y blynyddoedd diwethaf clywyd llawer o sôn am y straen ar lawer o ffermwyr heddiw, ac am unigrwydd y gwaith, heb sôn am ofidiau ariannol a phryderon iechyd meddwl. Gwelwyd sawl mudiad Cristnogol yn camu i'r adwy gan gynnig cefnogaeth, yn cynnwys y Farming Crisis Network, a'r DPJ Foundation, heb anghofio am waith arloesol Tir Dewi. Braff oedd cael croesawu a rhoi gofod i stondin Tir Dewi o fewn pabell yr eglwysi eleni. Dymunwn eu llongyfarch hefyd ar dderbyn gwobr nodedig yn y Sioe eleni am eu gwasanaeth i fyd amaeth yng Nghymru.

Sefydlwyd Tir Dewi gan yr Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi, a'r Esgob Wyn Evans yn 2015. Roeddent yn cydnabod y ffaith fod angen dybryd



Yr Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi

am help i ffermwyr oedd yn dioddef amserau anodd. Gyda chefnogaeth ariannol hael yr Eglwys yng Nghymru a Chronfa Cefn Gwlad y Tywysog, sefydlodd Eileen gynllun Tir Dewi fel llinell gymorth werthfawr a gwasanaeth cefnogol, naill ai dros y ffôn neu drwy drefnu ymweliad â'r fferm, yn ôl y gofyn. O ddechreuad bychan, pan oedd Eileen yn dosbarthu taflenni gwybodaeth i'r gymuned ffermio leol, tyfodd yr elusen yn llawer mwy na'r disgwyl. Bellach, mae Tir Dewi wedi llwyddo i helpu cannoedd o ffermwyr a'u teuluoedd a oedd, mewn un ffordd neu'r llall, yn ymdrechu i ymdopi. Heddiw, gall ffermwyr mewn angen mewn rhannau helaeth o Gymru gael mynediad at wasanaethau Tir Dewi.

Meddai Eileen, 'Hyd yn hyn rydym wedi sefydlu Tir Dewi yn ardaloedd Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Powys, Conwy, Sir Fôn, Gwynedd a Gŵyr. Rydym yn chwilio'n barhaus i ehangu ein gwaith yn y gobaith y byddwn, ryw ddydd, yn gwasanaethu ffermwyr ar draws Cymru gyfan.'

Diolch am weledigaeth Tir Dewi, ac am eu hawydd i weithio ar draws yr enwadau i gynnig gwasanaeth i bawb mewn angen. Diolch hefyd am waith a thystiolaeth yr eglwysi ar faes y Sioe – a braff fyddai gobeithio, erbyn 2023, y bydd mwy o blith eglwysi anghydfurfiol Cymraeg Cymru yn ymuno yn y genhadaeth. Tybed a yw Duw yn eich galw CHI?



Y caplaniaid cyn cychwyn allan ar waith y dydd



Oedfa'r bore dan ofal y Parch. Evan Morgan, gyda Peredur Griffiths yn cynorthwyo a Delyth Wyn Davies yn cyfeilio

## O 'greithiau Gaza' at 'Apostol Sir Gaerfyrddin' rhifyn Gorffennaf 2022 o'r *Traethodydd*

Bellach mae rhifyn Gorffennaf o'r *Traethodydd*, cylchgrawn llenyddol hynaf Cymru, ar gael yn y siopau, drwy archeb neu'n uniongyrchol drwy'r wefan. Mae'r rhifyn yr un mor amrywiol ag erioed, ac yn un y bydd ein darllenwyr, hen a newydd, yn cael blas arno.

Ar wahân i waith ein beirdd, Dafydd M. Job (yntau'n gyfrannwr newydd) a John Emyr, bu'r rhyddieithwyr yn ddiwyd, yn ôl eu harfer. Ac yntau wedi traethu mewn rhifynnau o'r blaen ar y beirdd metafisegol Seisnig George Herbert a Henry Vaughan, mae Pryderi Llwyd Jones yn rhannu ei fyfyrddod ar un arall ohonynt, sef Thomas Traherne. Yn wahanol i Herbert a Vaughan, prin oedd cyswllt Traherne â Chymru fel y cyfryw, ond, fel hwythau, mae yn ei waith bethau arhosol eu gwerth ynghyd â neges sy'n berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain. Bydd ail ran astudiaeth Pryderi yn ymddangos yn rhifyn yr Hydref.

Cyfraniad yr almanaciwr Gwilym Howel o Lanidloes yn y ddeunawfed ganrif sy'n dod dan sylw'r ysgolhaig Cynfael Lake, un o'n harbenigwyr pennaf ar lôn boblogaidd y cyfnod, tra mae'r golygydd yn adrodd hanes yr Annibynnwr Stephen Hughes, 'Apostol Sir Gaerfyrddin', adeg trichanmlwyddiant ei farw.


Mae Gethin Matthews, yr hanesydd o Brifysgol Caerdydd, eisoes wedi cyfrannu'n helaeth at ein dealltwriaeth o ymateb y Cymry i alanas y Rhyfel Mawr. Yn yr ysgrif 'Creithiau Gaza: dinistr y gorffennol a'r olion a adawyd yng Nghymru', mae'n ein goleuo ymhellach ynghylch yr ôl a adawodd y brwydro yn y Dwyrain Pell ar fywydau'r rhai a fu'n ymladd yno a'r hiraeth wedi'r colledion enbyd a fu yno. Dyma ysgrif sobreiddiol a dwys.

Yn ogystal â hynny, mae Dafydd Johnston yn adolygu *Hen Ddalennau*, casgliad gwerthfawr o ysgrifau llenyddol un o'r craffaf o'n beirniaid, sef Dafydd Glyn Jones.

Fe'ch anogwn unwaith eto i ddarllen y rhifyn cyfoethog hwn o'r *Traethodydd*, ac yn well fyth i danysgrifio i'r hynaf a'r mwyaf sylweddol o gylchgronau'r diwylliant Cymraeg. Wedi'i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan [www.ytraethodydd.cymru](http://www.ytraethodydd.cymru). Dilynwch ni

Gorffennaf2022

# Y Traethodydd



## Thomas Traherne a'i Neges

hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan ([d.d.morgan@pcdds.ac.uk](mailto:d.d.morgan@pcdds.ac.uk)), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch ag Alice Williams ([alice@ebcpcw.cymru](mailto:alice@ebcpcw.cymru)), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

## Llythyr at Olygyddion Cenn@d Gair y Dydd

Annwyl Olygyddion,

Dymunaf fynegi fy ngwerthfawrogiad o'r deunydd defosiwn dyddiol *Gair y Dydd* a gyhoeddir gan banel golygyddol rhyngennwadol. Diolch i aelodau'r panel a'r cyfranwyr am eu gwaith trylwyr yn darparu pedwar rhifyn y flwyddyn sy'n cynnwys darlleniad, myfyrdod a gweddi ar gyfer pob diwrnod o'r flwyddyn. Er mai'r bwriad yw cynnig deunydd ar gyfer defosiwn personol, mae hefyd yn addas i'w ddefnyddio mewn cyfarfodydd gweddi ac addoliad cyhoeddus. Cyflwynir adrannau

cyfarwydd ac anghyfarwydd o'r Beibl, a neges sy'n gyfoes a pherthnasol i ni heddiw.

Yn wyneb yr amgylchiadau anodd a heriol yr ydym yn eu hwynebu y dyddiau hyn, pa well agoriad i fyfyrddodau mis Gorffennaf eleni na'r geiriau canlynol? 'Cychwynnwn ein mis newydd gyda gweledigaeth i'n hysbrydoli a'n harwain.' Mae'r myfyrdod yn seiliedig ar eiriau'r proffwyd Habacuc: 'Oherwydd fe ddaw eto weledigaeth yn ein hamser' – gweledigaeth sy'n cael ei chyflwyno trwy gyfrwng hanes Iesu'n

ymddangos i'r disgyblion ac i Tomos yn loan 20, gan rannu'r geiriau 'Tangnefedd i chwi' a Tomos yn ymateb â'r geiriau 'Fy Arglwydd a'm Duw'.

Os nad ydych yn derbyn *Gair y Dydd* eisoes, anogaf chi i wneud hynny a thanysgrifio ar gyfer pedwar rhifyn y flwyddyn sy'n darparu deunydd defosiynol dyddiol ardderchog am flwyddyn gyfan.

Yn gywir,

Eleri Davies  
Aberystwyth

[DS Gellir archebu copïau oddi wrth y Trysorydd, Mr D. Glyn Williams; ffôn: 01492 581439 / 07866126072]

# O'r Beibl: 10

## Y Gwynfydau (3)

"Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro."  
(Mathew 5:4)

Fel yn achos pob gwynfyd, mae'r ail wynfyd hefyd yn dechrau â 'gwyn eu byd'. Mae 'gwyn eu byd' yn llythrennol yn golygu 'hapus' neu 'wedi eu bendithio'. Ond mae bod yn 'wyn ein byd' yn golygu mwy na dim ond ein hemosiynau newidiol. Mae'n realiti nad yw'n dibynnu nac yn cael ei effeithio gan ein teimladau. Oherwydd, yn ôl y Beibl, bod yn 'wyn ein byd' yw cael *perthynas* gyda Duw. Yn wir, nid teimlad ydyw, ond cyflwr. Rydym un ai yn 'wyn ein byd' neu nid ydym felly. Yn y Gwynfydau, mae Iesu'n egluro sut rai yw'r bobl sy'n 'wyn eu byd', hynny yw, sut rai yw'r bobl sydd eisoes yn mwynhau perthynas â Duw.

Heddiw, down at yr ail wynfyd sydd i'w gael yn Mathew 5:4: "Gwyn eu byd", meddai Iesu, "y rhai sy'n galaru." Ond pwy yw'r bobl hyn sy'n 'galaru'?

Yn y gwynfyd cyntaf, dywedodd Iesu: 'gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd'. Hynny yw, roedd 'na ystyr ysbrydol i beth roedd yn ei olygu i fod yn 'dlodion'. Buasai Iesu wedi gallu dweud 'gwyn eu byd y tlodion' ond dewisodd ddweud 'gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd'. Gan fod adnod 4 yn dilyn adnod 3, mae'n rhaid fod 'galaru' hefyd yn golygu rhywbeth ysbrydol. Mae'r galaru hwn yn alaru am rhywbeth ysbrydol.

Y rhai sy'n 'galaru' yw'r rhai sy'n galaru am eu pechod ac am y ffordd y mae pechod eraill a chyflwr pechadurus y byd wedi'u brifo. Mae'r gwynfyd cyntaf yn sôn am bobl sydd wedi sylwi pa mor dlawd ydyn nhw'n ysbrydol. Mae'r ail wynfyd yn sôn am ymateb yr un bobl i'r tlodi ysbrydol hwn: galar. O sylwi pa mor wag a gwael ydynt yn ysbrydol, mae'r bobl hyn wedi'u llenwi gan alar a thristwch enbyd ac yn pledio ar Dduw am ei help.

Yn yr Hen Destament ceir darlun o'r hyn mae 'galaru' am bechod yn ei olygu. Un o lyfrau'r Hen Destament yw 'Galarnad'. Y proffwyd Jeremeia ysgrifennodd y llyfr hwn, a'r hyn mae'r llyfr yn ei wneud – fel mae'r teitl yn ei awgrymu – ydy 'galaru'.



Yn llyfr Galarnad, mae Jeremeia yn galaru am bechod yr Israeliaid, a arweiniodd yn y pen draw at ddinistr Jerwsalem. Heb os, byddai'r Iddewon oedd yn gwrando ar Iesu'n pregethu'r Bregeth ar y Mynydd yn cysylltu'r llyfr hwn yn syth â'r syniad o 'alaru'.

Er hynny, nid condemnio'r rhai sy'n galaru am eu pechod y mae Iesu, ond cynnig cysur iddynt. Mae Iesu'n gorffen adnod 4 trwy ddweud y bydd y rhai sy'n 'galaru' yn 'cael eu cysuro'. Ond sut allant dderbyn y fath gysur? Wel, o gydnabod eu tlodi ysbrydol, galaru am eu pechod a throi at Iesu am help, gall pobl brofi maddeuant. Dyma beth sy'n dod â chysur go iawn i ni. Yn wir, beth all ddod â mwy o gysur i bechadur na maddeuant? Na gwybod bod ein beiau i gyd – er mor fawr ydyn nhw – wedi cael eu maddau gan Dduw? Gan fod Iesu wedi marw yn ein lle ni ar y groes, mae maddeuant ar gael i'r rhai sy'n galaru am eu pechod, ac yn troi at Dduw am help.

Wrth gloi, y cwestiwn i ni yw: ydyn ni'n galaru am ein pechod? Ydy hwn yn rhywbeth yr ydym ni wedi ei brofi? Os nad ydyw, gadewch i ni weddio y bydd Duw yn ein gwneud ni'n alarwyr. Ond os ydym heddiw'n galaru am ein pechod, gallwn fod yn sicr y cawn ein cysuro gan faddeuant Duw.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt:

- Beth mae'n ei olygu i 'alaru' yn adnod 4?
- Sut mae'r rhai sy'n 'galaru' yn cael eu cysuro gan Iesu?

Gwilym Tudur



## Cytûn Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

Mae Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yn gwahodd ceisiadau am swydd

### Prif Weithredwr

a ddaw'n wag toc gan y bydd deiliad presennol y swydd, y Parchedig Ganon Aled Edwards, yn ymdeol.

Bydd deiliad y swydd yn:

- ❖ arwain gyda gweledigaeth ar eciwmeniaeth ac ymwneud â'r cyhoedd gan eglwysi Cymru a bydd yn galluogi ac yn dwyn ymlaen y rhaglen waith a'r blaenoriaethau a osodir gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Cytûn i wasanaethu'r eglwysi;
- ❖ goruchwyllo cefnogaeth i'r Cyfamod dros Undod yng Nghymru trwy Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol;
- ❖ rheoli tîm sy'n cyflwyno'r rhaglen waith y cytunwyd arni gan y bwrdd a'r eglwysi sy'n aelodau;
- ❖ Gristion sy'n deall ac yn derbyn sylfaen drindodaidd Cytûn;
- ❖ gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg a Saesneg.

Am fwy o wybodaeth am Cytûn, y rôl, a'r unigolyn yr ydym yn chwilio amdani/o, cysylltwch â [cadeirydd@cytun.cymru](mailto:cadeirydd@cytun.cymru)

Gwnewch gais ar-lein at:

[cadeirydd@cytun.cymru](mailto:cadeirydd@cytun.cymru)

A fyddwchystal â chynnwys y canlynol:

- CV cynhwysfawr sydd yn cynnwys eich llwyddiannau diweddar a manylion dau ganolwr, gydag un ohonynt yn goruchwyllo eich gwaith cyfredol.
- Llythyr cais sydd yn cynnwys eich rheswm dros wneud cais a'r priodweddau y byddwch yn eu dwyn i'r rôl.
- Rhaid derbyn ceisiadau erbyn 31 Awst 2022
- Cynhelir cyfweiliadau ar 19 Medi 2022

Cysylltwch â [cadeirydd@cytun.cymru](mailto:cadeirydd@cytun.cymru) os oes gennych unrhyw broblemau

## Pwys a gwres y dydd

Wrth imi ysgrifennu'r tro hwn mae'r tymheredd ym Mhrydain wedi codi yn uwch nag ers dechrau ei gofnodi. Mae wedi bod yn eithriadol o dwym, gyda Swyddfa'r Met yn cyhoeddi rhybuddion a chanllawiau ar gyfer y gwres uchel. Mae'n debyg fod miloedd yn marw bob blwyddyn oherwydd tymheredd uchel, diffyg hylif, gorboethi a llesgedd llwyr yn sgil y gwres.

Felly, cawn ein cyngori i gau'r llenni rhag i'r haul daro ystafelloedd y tŷ a chadw yn y cysgod y tu allan pan fydd hynny'n bosib. Dylem wisgo het ag ymyl llydan a rhoi eli haul yn gyson. Rhaid yfed digon o ddŵr yn ystod y dydd. Dylem beidio â gwneud gormod o ymarfer corff yng nghyfnod poethaf y dydd.

### Llafurio yn y gwres tanbaid

Ym Mathew 20 cawn ddameg gan yr Arglwydd Iesu am deyrnas nefoedd. Mae'n sôn am weithwyr yn gweithio mewn gwinllan am geiniog y dydd. Erbyn diwedd y dydd mae pob un yn cael ceiniog, y rhai a weithiodd ers y bore a'r rhai a gyflogwyd yn hwyrach hefyd.

Mae pob Cristion yn cael bywyd tragwyddol drwy ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist a'i groes, er bod rhai'n ei wasanaethu am gyfnod maith ar y ddaear tra mae eraill yn dod ato ar ddiwedd eu hoes, fel y lleidr ar y groes. Mae'r mwyafrif ohonom yn cael dod i gredu a gwasanaethu'r Arglwydd am gyfnod eithaf hir yn ein bywyd daearol, sy'n cael ei ddisgrifio fel cario pwys y dydd a'i wres. Felly, beth am ystyried y canllawiau ar gyfer y tymheredd uchel diweddar ar gyfer ein llafur ysbrydol?

### Cysgod

Mae Salm 91 yn sôn am bobl yr Arglwydd yn byw yn ei loches ac yn aros yn ei gysgod, ac yntau fel caer, ac mae Salm 46 yn sôn am Dduw Jacob fel noddfa, nerth a chaer. Felly, mor bwysig yw ymddiried o hyd yn yr Arglwydd. Mae Efengyl Duw yn dangos i ni sut i fod yn iawn gyda Duw, a hynny trwy ffydd o'r dechrau i'r diwedd.

Mae ffydd achubol yn golygu derbyn, cytuno ac ymateb yn ufudd i Air Duw a galwad yr Efengyl i edifarhau am ein pechod ac ymddiried yn ei Fab annwyl. Mae'r ffydd hon (sy'n rhodd gan Dduw) yn ein clymu wrth yr Arglwydd Iesu am byth. Trwyddi cawn brofi heddwch â Duw; cawn brofi ei gariad yn ein calonnau, gan greu ymateb o garu'r Arglwydd ac ufuddhau iddo, gorfoleddu ynddo, hyd yn oed mewn gorthrymderau, a disgwyl yn amyneddgar wrtho.



Llun gan Arron Choi (Unsplash)

### Dŵr

Mae Salm 46 yn sôn am afon, a'i ffrydiau yn llawenhau dinas Duw. Doedd dim afon yn rhedeg drwy Jerwsalem, ac roedd yn rhaid mynd tu fa's i'r ddinas at ffynhonnau dŵr, hyd nes i Heseceia gloddio twnnel i ddod â dŵr i ganol y ddinas. Roedd hyn yn bwysig iawn pan fyddai'r ddinas dan warchae. Gallai'r trigolion ddal yn hirach o lawer os oedd dŵr ganddynt.

Mae'r Arglwydd Iesu yn addo y bydd ei bobl – sy'n dod ato mewn syched ac yn yfed ohono fel ffynnon y bywyd tragwyddol – yn cael eu llenwi nes gorlifo â'r Ysbryd Glân. Mor bwysig yw glynu wrth yr Arglwydd drwy'r moddion gras: gwrandao a darllen ei Air, cymdeithas Cristnogion, yr ordinhadau a gweddi – er mwyn yfed yn barhaus ohono Fe a chael ein llenwi â dŵr bywiol yr Ysbryd Glân.

### Gorffwys

Yn Mathew 11:28–30, mae'r Arglwydd yn ein gwahodd i orffwys ynddo Fe ac i gymryd ei iau arnom. Y darlun yw'r ffarmwr oedd yn paru dau ychen wrth ei gilydd – un profiadol ac un dibrofiad. Byddai'r ychen ifanc yn dysgu dilyn y llwybr cywir; byddai'n cael nerth yr ychen profiadol a'i gwmni hefyd. Mae'n ddarlun hyfryd o beth yw Cristion. Mae'n golygu dod o dan iau yr Arglwydd Iesu, sydd yn esmwyth ac ysgafn, gan ei fod Ef a ninnau yn ei wisgo gyda'n gilydd. Mae'n golygu cael ein harwain, ein nerthu a phrofi cwmni'r Arglwydd ar hyd y daith.

Diolch am ganllawiau Gair Duw ar gyfer pwys a gwres y dydd.

John Treharne



## SOULED OUT CYMRU 22 AWST 13–18

### Canolfan Ieuenctid a Phlant Eglwys Bresbyteriaid Cymru, Coleg y Bala

Rydyn ni'n 'methu aros' i fod 'nôl yn y stafell eto, ar gyfer y 5 diwrnod gwych yma i ieuenctid (15+), myfyrwyr ac oedolion ifanc!

Mae'r prif sesiynau bob amser yn uchafbwynt SOULED OUT, wrth i ni addoli Duw a gwrandao ar ei Air. Hefyd, bydd rhai seminarau ymarferol yn ystod yr wythnos i'n harfogi a'n hysbrydoli, a grwpiau bach i'n helpu i ymateb i'r hyn rydyn ni'n ei glywed.

Ac yn steil SOULED OUT, rydyn ni'n trefnu llwyth o bethau llawn hwyl i bawb ei wneud! Dros y blynyddoedd, rydyn ni 'di mwynhau *inflatable* mawr, caffi acwstig, gemau pêl-droed, crefftau creadigol, padlfyrddio, *s'mores* rownd y tân – a bydd digon o bethau newydd i'w mwynhau eto eleni!

Os byddwch yn teithio o'r de neu o ganolbarth Cymru, bydd bws yn cael ei drefnu am gost fach o £10. Bydd gofal plant hefyd ar gael bob bore.

**LLETY:** Bydd pawb dan 18 oed yn aros yng Ngholeg y Bala, gyda'r mwyafrif dros 18 yn aros yng Nghanolfan Rhosygwalia.

**COST:** £122 – Mae'r pris yn cynnwys y digwyddiad, bwyd, gweithgareddau a 5 noson o lety. (Os ydych am wneud eich trefniadau llety eich hun, neu am ddod am y dydd, cysylltwch â Choleg y Bala ynglŷn â'r gost o ddod i SOULED OUT.)

Peidiwch â cholli allan! Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymuno â ni am amser arbennig yn SOULED OUT 22! Dyma ddolen sy'n mynd i'r wefan: <https://souledoutcymru.net/haf/>

### Ffurflen Gofrestru SOULED OUT 22

(Canolfan Coleg y Bala, Ffordd Ffrydan, Y Bala, Gwynedd LL23 7RY. Ffôn: 01678 520565)

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Iechyd gwlad a thrysor cudd

Emyn 755: 'Y cysur i gyd'

Darllen: Salm 33:12-22

Mewn byd cythryblus sy'n wynebu heriau newid hinsawdd a phrisiau cynyddol, mewn cymdeithas lle mae tlodi a phryder ar gynydd, byddai'n hawdd iawn gennym gael ein bwrw i anobaith, i sinigrwydd neu i ddifaterwch.

Da yw i ninnau eistedd yng nghwmni'r Salmydd a'i ddoethineb oesol. Doethineb ydyw sy'n cynnig gweledigaeth amgenach na'n hymatebion ofnus i amgylchiadau, i sbin a phropaganda ein hoes.

I'r Salmydd, nid yn y **sioe allanol** o rym y canfyddir gobaith, diogelwch a llwyddiant cenedloedd byd. Canfyddir tarddle'r gobaith oesol yn Nuw ei hun.

Ef yw tarddle pob urddas, pob gobaith cenedlaethol a chymunedol. Trysor **mewnol** ydyw sydd yn ei hanfod yn guddiedig i olwg y cyhoedd. Er hyn, disgleirdeb a amlygir yn ein gwerthoedd a'n gweithredoedd yw'r trysor hwn.

Mae bod yn genedl sy'n byw o dan ffafr yr Arglwydd yn golygu ein bod yn cydnabod bod 'llygaid yr Arglwydd ar y rhai a'i hofna'. Golyga ein bod yn 'disgwyl' wrth yr Arglwydd, yn llawen yn ei bresenoldeb, yn ymddiried ynddo ef a'i sancteiddrwydd, yn pwysu ar ei ffyddlondeb ac yn bwrw ein gobaith arno.

Mae byw gyda'r agweddau meddwl hwn yn arwain atostyngieddrwydd a gonestrwydd. Wedi'r cyfan, mae'r Arglwydd 'yn deall popeth a wnânt'. Crea'r argyhoeddiad hwn gymuned o bobl addolgar, obeithiol a llawen. Nid gobeithion unigolyddol yw'r rhain ond rhagdybiaethau pellgyrhaeddol ar gyfer cymdeithas a chenedl wâr sy'n byw o dan fendith Duw. Cymdeithas ydyw lle gall ymddiriedaeth dyfu mewn cymuned, lle gall gwerthoedd fel ffyddlondeb a gobaith ffynnu.

### Gweddi

Arglwydd, caniatâ i'r chwyldro syml, tawel hwn feddiannu fy nghalon, a chalonnau ein cenedl, ynghyd â phobloedd byd. Bydded i'r bywyd cyflawn, cadarn ac iachusol sy'n tarddu o'r wybodaeth fod yr Arglwydd ffyddlon yn ffyddlon i'w air a'i addewid yng Nghrist ym mhob oes dyfu yn ein mysgr. Rydym am lawenhau ynot, Arglwydd, gan garu cyfiawnder a gweld holl genhedloedd y ddaear yn byw o dan dy lywodraeth gyfiawna a grasol di. Amen.

Darllen: Luc 12:32-40

Oes unrhyw un ohonom sydd heb ddeall arwyddocâd y gorchymyn, 'Dos a gwna dithau yr un modd?' (10:37) Nid yw'n anodd deall bod Iesu'n ystyried y rhai 'sy'n casglu trysor iddynt eu hunain, heb fod yn gyfoethog gerbron Duw' yn ynyfydion, yn ffyliaid (12:21).

Beth sy'n dramgwyddus i ni yw ein bod yn deall ei eiriau ond nad ydym, fel ei wrandawyr cyntaf, yn hoffi goblygiadau geiriau Iesu. Mae geiriau Iesu'n parhau i herio ein gwerthoedd a'n rhagdybiaethau mwyaf sylfaenol.

### Trysor Newydd

Nid damweiniol yw fod Luc yn cynnwys yr adran am 'ofal a phryder' wedi 'Dameg yr Ynfytyr Cyfoethog'.

O graffu ary darlleniad yn fanylach gwelwn mai'r gosodiad, 'Oherwydd lle y mae eich calon, yno y bydd eich trysor' yw'r allwedd sy'n agor yr adnodau i ni (adn. 34).

Datgelir 'lle y mae eich *calon*' gan y pethau sydd ar *ganol* ein bywydau. Dyma'r 'trysorau' sy'n rheoli ein blaenoriaethau a'n hamserlenni. Ofn colli'r 'trysorau' yw'r cymylau a fynegir yn ein pryderon, ein 'trysor' sy'n llywio'n meddyliau ac yn cyfeirio ein dewisiadau, ein gwerthoedd a'n huchelgais.

Yn wir, mae'r pethau yma yn gymaint rhan ohonom, yn rymoedd mor ffurfiannol ar ein bywydau, fel unigolion ac fel diwylliant, fel nad ydym hyd yn oed yn ymwybodol o'u gafaél arnom! Gall arian a chyfoeth, neu statws, neu wyliau, neu foethusrwydd, neu lwyddiant neu fyrddiwn o bethau eraill fod yn 'drysor' i ni. Dyma'r eilunod a wasanaethwn, y grymoedd annelwig y chwiliwn am nerth ac ystyr ynddynt, y duwiau sy'n cynnig diogelwch i ni.

Mor syml a phellgyrhaeddol yw dysgeidiaeth Iesu. Yn gyntaf, mae'n ein harwain i sylweddoli nad ydym yn berchnogion go iawn ar y trysorau tlawd y rhoesom ein bryd arnynt. Gall popeth daearol a feddiannwn gael ei gipio oddi wrthym gan 'ladron' neu gan 'wyfyn' ein hamgylchiadau.

Yn ail, mae'n gofyn i ni ymdrechu i baratoi 'pysau', storfa o drysorau dihybydd sy'n ddiogel o dan warchodaeth yr Arglwydd ei hun, 'yn y nefoedd'.

Am hynny, yn drydydd, gallwn ddysgu byw gyda'r 'ysgafnder' at feddiannau sy'n nodweddu'r galon sy'n agored i Dduw. Dysgw'n fyw fel deiliaid y Deyrnas sydd yn aros, ac y mae gwerthoedd ac etifeddiaeth y Deyrnas yn gofyn i ni, yn ymarferol, fyw yn symlach, yn fwy hael, yn fwy trugarog.

### Canolbwynt newydd, adn. 35-40

Felly, o ddilyn dysgeidiaeth Iesu, deallwn os mai daearol a materol yw ein bryd, yna bydd y llinyn mesur ar ein gwerthoedd, ein 'trysor', hefyd yn ddaearol ac yn faterol. Yn yr adran hon gwelwn Iesu'n newid ein gwerthoedd drwy newid ein ffocws.

Mewn sgwrs â'i ddisgyblion (adn. 22) anogodd hwy i fod â'u 'gwisg wedi ei thorchi a'ch canhwylau ynghyn' (adn. 35). Mewn geiriau eraill, rydym i fod yn effro ac yn barod i wasanaethu, gan ein bod yn disgwyl dyfodiad y meistr ei hun ar awr anhysbys. Nid oes lle i esgeulustod 'oherwydd pryd na thybiwch y daw Mab y Dyn'.

Gwelwn fod Luc yn cyfeirio at **Fab y Dyn** mewn tair ffordd wahanol. Yn gyntaf, defnyddir y term ganddo i ddisgrifio Mab y Dyn a'i weinidogaeth (5:24). Gall gyfeirio, yn ail, at Fab y Dyn a'i ddiodefaint a'i goncwest ar Galfaria. (9:22, 26, 44). Neu gall gyfeirio, yn drydydd, at ddyfodiad Mab y Dyn fel barnwr byd. O hyn allan yn efengyl Luc, fel Arglwydd a barnwr byd y cyfeirir at Fab y Dyn a'i ddyfodiad.

Felly, yn y ddameg caiff y gweision eu hannog i fod yn effro ac yn weithgar er bod eu Meistr yn 'oedi' cyn dychwelyd i'w gartref. Cawn ninnau yn yr un modd felly ein galw i fod yn effro, yn wasanaethgar, yn barod, wrth i ni ddisgwyl dyfodiad Mab y Dyn, 'pryd na thybiwch'.

Nid yw'r disgybl sy'n byw yng ngoleuni dyfodiad ei feistr ar ei golled. Bydd y gweision effro a gweithgar yn clywed llais Mab y Dyn yn dweud amdanynt, 'Gwyn eu byd y gweision hynny a geir ar ddihun gan eu meistr pan ddaw.'

### Gweddi

Arglwydd, cyffeswn fod ein dull o fesur gwerth 'pethau' yn ddaearol iawn. Gwell gennym drysorau gweladwy a thymhorol uwchlaw trysorau sydd ynghadw yn y nef. Cadw ni rhag cysgadrwydd a dihidrwydd. Caniatâ i ni 'fyw dan ddisgwyl am fy Arglwydd, / bod, pan ddêl, yn effro iawn', gan fyw bywydau o wasanaeth bob dydd i'th glod! Amen.

Emyn 723: 'O am bara i uchel yfed'

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [hww@cennad.cymru](mailto:hww@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)



CennadCymru



@CennadCymru